WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 27 Tachwedd 2013 |
| Ein cyf: | HVT/2015/fgb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

Annwyl Darren

## CONTRACT MEDDYGON YMGYNGHOROL YNG NGHYMRU: CYNNYDD O RAN SICRHAU'R MANTEISION

Gofynnodd llythyr y Clerc ar 25 Hydref am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Medi 2013 ar y *Contract Meddygol Ymgynghorol yng Nghymru* [GIG]. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys naw argymhelliad ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn derbyn yr wyth argymhelliad sy'n effeithio arni'n uniongyrchol.

Yn gyffredinol, credaf fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn foddhaol i'r argymhellion. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu canllawiau cynllunio swyddi diwygiedig a hyfforddiant ategol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu amserlen i'r Pwyllgor o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae'r amserlen hon yn nodi'n glir y cerrig milltir allweddol cyn i sefydliadau'r GIG roi'r canllawiau cynllunio swyddi diwygiedig ar waith o 1 Ebrill 2014.

Rwyf wedi gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i gynnal gorchwyl gwylio ar gynnydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac, yn benodol, i roi sicrwydd bod y canllawiau cynllunio swyddi Cymru gyfan diwygiedig yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion sy'n achosi pryder a godwyd yng nghanfyddiadau fy astudiaeth a gan y Pwyllgor. Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor os yw'n hadolygiad o'r canllawiau newydd yn nodi unrhyw faterion sy'n achosi pryderon sylweddol.

Yn amlwg, bydd yn bwysig sicrhau bod canllawiau diwygiedig y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a chamau cysylltiedig eraill i gryfhau'r gwaith o gynllunio swyddi, yn arwain at welliannau gwirioneddol o fewn sefydliadau'r GIG. Rwy'n ymwybodol, drwy waith yn dilyn archwiliadau lleol, fod sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn gweithredu i wella'r gwaith o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol. Byddaf yn parhau i ddefnyddio fy rhaglen o waith archwilio lleol i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud, ac yn 2015 rwy'n bwriadu

llunio datganiad wedi'i ddiweddaru a fydd yn datgelu i ba raddau y mae'r gwaith o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yng Nghymru wedi'i gryfhau.

I gloi, roedd Argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor yn gofyn i mi gynnal ymchwiliad gwerth am arian i brosesau a gweithdrefnau byrddau iechyd lleol ar gyfer cleifion sy'n symud rhwng meddygfeydd preifat a'r GIG. Rwy'n fodlon gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a byddaf yn defnyddio'r gwaith cwmpasu sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar astudiaeth gwerth am arian amseroedd aros arfaethedig i nodi'r gwaith y bydd angen ei wneud i archwilio'r mater hwn. Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar hyn.

Gobeithio bod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**